**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Pwyllgor Trwyddedu , Dydd Mercher, 20 Medi 2017**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| 1 | YMDDIHEURIADAU | Y Cynghorwyr Melvyn Mile, Arwel Roberts a Rhys Thomas |
| 2 | DATGAN CYSYLLTIAD | Cynghorydd Huw Williams – Cysylltiad Personol – Eitem 6 ar y Rhaglen<br>Cynghorydd Peter Scott – Cysylltiad Personol – Eitem 7 ar y Rhaglen |
| 3 | MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD | Dim eitem brys wedi'i chodi. |
| 4 | COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF | ***PENDERFYNWYD**, yn amodol ar bwynt cywirdeb, derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 28 Mehefin 2017 fel cofnod cywir.* |
| 5 | CAIS AM DRWYDDED CERBYD HACNI | ***PENDERFYNWYD** gwrthod y cais i drwyddedu'r cerbyd fel cerbyd hacni.* |
| 6 | CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT – YMGEISYDD RHIF 519937 | ***PENDERFYNWYD** rhoi'r cais am drwydded i yrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat i Ymgeisydd Rhif 519937, gyda rhybudd ffurfiol am ei ymddygiad yn y dyfodol.* |
| 7 | ADNEWYDDU CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - RHIF YMGEISYDD 520399 | ***PENDERFYNWYD** adnewyddu cais am drwydded i yrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat gan Ymgeisydd Rhif 520399, gyda rhybudd ffurfiol am ei ymddygiad yn y dyfodol.* |
| 8 | ADNEWYDDU CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO | ***PENDERFYNWYD** adnewyddu cais am drwydded i yrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat gan Ymgeisydd Rhif 520398, gyda rhybudd ffurfiol am ei euogfarnau gyrru ac ymddygiad yn y dyfodol.* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | PREIFAT - RHIF YMGEISYDD 520398 | |
| **9** | CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT – YMGEISYDD RHIF 516098 | Rhoddwyd gwybod i Aelodau bod y cais hwn wedi'i dynnu oddi ar y rhaglen. |
| **10** | CAIS AM HYSBYSEBU AR GERBYD HACNI | ***PENDERFYNWYD*** – <br><br> *(a) caniatáu ceisiadau i ddangos hysbysebion ar gais, ac* <br><br> *(b) ystyried ceisiadau yn y dyfodol i ddangos hysbysebion yn unigol, yn ôl eu rhinweddau eu hun.* |
| **11** | ADOLYGU TREFN GYRWYR CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT | ***PENDERFYNWYD*** – <br><br> *(a) nodi cynnwys yr adroddiad, a* <br><br> *(b) bod swyddogion yn cael eu cyfarwyddo i ddechrau gweithio ar bolisi drafft gan ystyried barn yr aelodau ac unrhyw ddatblygiadau o broses Llywodraeth Cymru, ac awdurdodi ymgynghoriad Sir Ddinbych â phartïon â diddordeb, ac adrodd yn ôl i gyfarfod o'r pwyllgor yn y dyfodol.* |
| **12** | NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I FFIOEDD TRWYDDEDU TACSI A THALIADAU TARIFF | ***PENDERFYNWYD*** *bod aelodau –* <br><br> *(a) yn cymeradwyo'r ffioedd a'r taliadau fel y manylir yn Atodiad A yr adroddiad;* <br><br> *(b) yn awdurdodi swyddogion i gyhoeddi'r newidiadau i'r ffioedd Trwyddedu Tacsi* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *mewn papur newydd lleol ar gyfer yr ymgynghoriad angenrheidiol, ac os na dderbynnir unrhyw wrthwynebiadau, byddant yn dod i rym ar 1 Rhagfyr 2017;*<br><br>*(c) yn gofyn, pan dderbynnir unrhyw wrthwynebiadau, bod y Pwyllgor Trwyddedu yn ystyried y gwrthwynebiadau hynny yn eu cyfarfod nesaf gyda'r bwriad o weithredu (gydag addasiad neu hebddynt) heb fod yn hwyrach nag 1 Ionawr, 2018;*<br><br>*(d) nodi'r newidiadau gweinyddol i'r drefn drwyddedu, ac*<br><br>*(e) awdurdodi swyddogion i gynnal adolygiad o daliadau tariff mesurydd tacsi ac ymgynghori yn ôl yr angen, gyda'r bwriad o adrodd am y canfyddiadau i'r Pwyllgor Trwyddedu i'w hystyried a'u hargymell i'r Cabinet i'w gweithredu.* |
| **13** | ADOLYGU'R POLISI MASNACHU AR Y STRYD | ***PENDERFYNWYD*** *bod aelodau'n awdurdodi swyddogion i barhau i weithio ar bolisi masnachu ar y stryd drafft ac ymgysylltu â grwpiau ac unigolion perthnasol i ddatblygu polisi drafft o'r fath, i'w gyflwyno mewn Pwyllgor Trwyddedu yn y dyfodol.* |
| **14** | ADOLYGU – DEDDF GAMBLO 2005 DATGANIAD O EGWYDDORION | ***PENDERFYNWYD*** *bod aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad ac yn awdurdodi swyddogion i barhau i weithio ar y polisi drafft drwy gasglu unrhyw ymatebion a gafwyd, a chyflwyno aelodau gyda fersiwn terfynol i'w ystyried yn y cyfarfod nesaf yn Rhagfyr 2017.* |
| **15** | RHAGLEN GWAITH Y PWYLLGOR TRWYDDEDU | ***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor Trwyddedu fel y manylir yn Atodiad 1.* |